| | |
|---|---|
| | **EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD**<br>**BRO'R WENYNEN, GWENT 2027** |
| | **Cystadleuaeth 99 – Parti Cerdd Dant Bl.9 ac iau (Ad)** |
| | **Hŷn na'r Coed, Robin Llwyd ab Owain** |

Ar ymyl llif y draffordd
Roedd un genhinen flêr:
Cenhinen y gwanwynau
A'i llafn fel cannwyll wêr;
Ni fedrodd holl gerbydau'r byd
Fyth ddiffodd fflam ei swyn a'i hud.

Fe droellai'r mwg o'i chwmpas
A holl dechnoleg dyn,
Ym mhydew ein byd modern,
Roedd hon yn dal yr un
Genhinen felen ag erioed,
A'i hen hen iaith yn hŷn na'r coed.

Pan beidia'r byd â gyrru
Yn wallgo i lawr y ffyrdd,
Pan beidia'r mwg â'n llygru,
Bydd hi'n dragwyddol wyrdd:
A her ei dawns fel fflam ar daith,
A'i gwanwyn hi fydd gwên ein hiaith.